



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Cam 2 – Canllawiau Cynllunio i Wasanaethau Digartrefedd a Chymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

**3 Mehefin 2020**

## RHAGAIR

Yn ystod y pandemig hwn, yn ddiau, mae'r camau pendant a thosturiol a gymerwyd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru, mewn partneriaeth â sefydliadau ieuchyd, sefydliadau yn y trydydd sector, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau gwirfoddol, er mwyn dod â phobl i mewn oddi ar y strydoedd, wedi achub bywydau.

Er mwyn diogelu pob un ohonom, rydych wedi gwneud yn siŵr bod pawb wedi'u cynnwys mewn mesurau y bwriedir iddynt ddiogelu unigolion a chymunedau. Rydych wedi helpu pobl a oedd yn wynebu bod yn ddigartref i gael llety diogel a sefydlog – efallai am y tro cyntaf yn eu bywydau, ac rydych wedi helpu pobl i ddechrau meithrin ymddiriedaeth mewn gwasanaethau y maent prin wedi ymgysylltu â nhw o'r blaen, os o gwbl, a hynny mewn ychydig wythnosau.

Mae'r ymateb i'r argyfwng hwn wedi dod â ni yn agosach at ein gilydd mewn sawl ffordd, gan gydnabod ein diben cyffredin a rennir, ond hefyd yn agosach at wireddu ein gweledigaeth o sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru yn rhywbeth prin a byrhoedlog nad yw'n digwydd eto. Fodd bynnag, fel y gwyddom yn iawn, nid yw darparu llety dros dro yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd. Mae gennym gyfle unigryw i ddefnyddio'r creadigrwydd, yr arloesedd, y cydweithredu a'r parodrwydd i weithio yn wahanol er mwyn gwneud newid hirdymor, cynaliadwy a sylfaenol i wasanaethau digartrefedd yng Nghymru.

Mae'n rhaid i'r gwaith o gynllunio ar gyfer cam dau ein hymateb i'r pandemig ganolbwyntio nawr ar sut y gallwn symud yn gyflym i drawsnewid ein dull o atal digartrefedd. Ni allwn gamu'n ôl o'r cynnydd enfawr rydym wedi'i wneud.

Rwyf bellach yn gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru baratoi cynllun dau gam. Mae'r ddogfen hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer y cynlluniau hynny y bydd angen iddynt adlewyrchu'r cyd-destun lleol a phartneriaethau lleol. Ein nod ar y cyd yw sicrhau y caiff pawb rydym wedi dod â nhw i mewn i lety dros dro gymorth i gael llety hirdymor. Ar ben hynny, rydym yn anelu at drawsnewid ein dull gweithredu cyfan mewn perthynas â darpariaeth digartrefedd er mwyn i'r rhai sy'n ymgysylltu fel pobl ddigartref bob dydd brofi system sy'n canolbwyntio ar ddull atal go iawn a, phan fydd yn methu, fel y bydd yn ei wneud o bryd i'w gilydd, sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin nad yw'n digwydd eto.

Mae'n rhaid i arloesi, ailfodelu ac adeiladu fod yn sail i'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru, yn ei atal ac yn rhoi terfyn arno unwaith ac am byth.

Mae'r cynllun hwn yn uchelgeisiol ac mae'n ein herio, yn gywir ddigon, i feddwl, cynllunio a gweithio'n wahanol. Ni fydd y buddsoddiad newydd rwyf wedi'i gyhoeddi er mwyn cefnogi'r cynllun hwn yn ariannu popeth y mae angen inni ei wneud ond mae'n adlewyrchu'n glir ein hymrwymiad fel Llywodraeth Cymru i arwain a buddsoddi yn yr hyn rydym yn credu ynddo. Mae'r ychydig wythnosau diwethaf wedi dangos inni y gallwn gyflawni llawer mwy pan fyddwn yn cydweithio nag y gallwn ei wneud ar ein pen ein hunain.

Mae'r cyfle sydd gennym yn un gwirioneddol gyffrous. Bydd yn heriol iawn ond, yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma, rwy'n hyderus y gallwn bellach gymryd cam mawr tuag at gyflawni ein nod o roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Julie James AS  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

## **CYD-DESTUN**

Ers dechrau'r pandemig, diolch i ymdrechion enfawr awdurdodau a phartneriaid, mae bron 900 o bobl ledled Cymru wedi cael cymorth i gael llety argyfwng dros dro ac mae mwy yn parhau i gael cymorth bob dydd. Cyflawniad gwirioneddol syfrdanol sy'n tystio i allu ac ymrwymiad awdurdodau lleol a'r sector tai cyfan i ymateb i argyfwng iechyd byd-eang na welwyd mo'i debyg o'r blaen.

Mae llawer o bobl nad ydynt wedi gallu ymgysylltu â gwasanaethau o'r blaen bellach yn cael cymorth a chynghor, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl a thriniaeth camddefnyddio sylweddau, gan osod y sylfeini ar gyfer gadael digartrefedd yn barhaol.

Rydym yn ymwybodol bod y pwysau ar wasanaethau a fodolai cyn y pandemig yn parhau, ac mae achosion newydd o ddiartrefedd yn rhoi pwysau ar yr opsiynau mwyfwy cyfyngedig o ran llety argyfwng. Gwyddom hefyd fod rheoli nifer mawr o bobl mewn llety argyfwng yn heriol i awdurdodau lleol a'u partneriaid.

Mae'n rhaid inni nawr droi at gynllunio ar gyfer y dyfodol a helpu pobl i gael tai mwy parhaol. Mae'n rhaid inni weithio er mwyn helpu i sicrhau bod pobl sy'n wynebu bod yn ddiartref yn parhau i gael eu diogelu rhag y feirws – er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw fesurau diogelu iechyd y cyhoedd parhaus neu newydd a gyflwynir ac, yn y pen draw, nad oes neb yn cael ei orfodi i ddychwelyd i'r strydoedd nac i fath arall o ddiartrefedd.

Rydym yn glir, er bod cam cyntaf ein hymateb wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddod â phobl i mewn i lety argyfwng, nad ydym wedi rhoi terfyn ar ddiartrefedd ar gyfer y bobl hyn, ac mae nifer graddol gynyddol o bobl yn dal i gysgu allan yn ein trefi a'n dinasoedd.

Mae llety argyfwng wedi ein helpu i ddiogelu pobl rhag pandemig byd-eang; pontio i dai sefydlog yw'r cam hollbwysig nesaf.

## **CWMPAS A DIBEN**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfeiriad clir ac yn nodi'r meysydd blaenoriaeth a'r egwyddorion allweddol y dylai awdurdodau lleol, gan weithio gyda'u partneriaid, eu hystyried a'u mabwysiadu fel rhan o'u gwaith cynllunio strategol a gweithredol ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd, gan symud pobl ymlaen o lety argyfwng a datblygu llety â chymorth effeithiol. Mae hyn yn gymwys nid yn unig i gam 2, sef cynllunio pontio, ond hefyd fel egwyddorion arweiniol ar gyfer cam 3 a thu hwnt.

Er bod cwmpas y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar y gwaith cynllunio ar gyfer adsefydlu unigolion mewn llety dros dro a datblygu opsiynau arloesol ar gyfer llety dros dro a llety â chymorth addas ar gyfer y dyfodol, bydd gwasanaethau cymorth yn rhan hanfodol o'r ateb. Bydd angen i gynlluniau pontio ystyried gofynion cynllunio strategol ar gyfer y Grant Cymorth Tai a'r ffordd y gall y grant hwnnw a mecanweithiau grant eraill sy'n bodoli eisoes helpu i gyflawni'r cam nesaf. O fewn y Grant Cymorth Tai mae hyblygrwydd i newid modelau darparu presennol, gyda

chytundeb darparwyr cymorth, er mwyn addasu ac ymateb i'r heriau newydd sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Mae'n rhaid i'r cynlluniau hefyd fod yn ddigon hyblyg i ystyried y potensial ar gyfer ail neu drydedd don o achosion o COVID-19.

Esboniad o gamau cynllunio:

Cam 1	Mawrth 2020 – Awst 2020	Rheoli Argyfwng
Cam 2	Gorffennaf 2020 – Mawrth 2021	Cam 2 Ymateb
Cam 3	Ionawr 2021 – Mawrth 2020	Symud i'r 'Normal Newydd'

**Noder bod y camau hyn yn gorgyffwrdd yn fwriadol gan adlewyrchu'r angen i gadw llygad ar y cam nesaf hyd yn oed wrth inni gyflawni cam presennol er mwyn osgoi 'ymylon dibyn' ar gyfer ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogir gennym.**

## **EIN GWELEDIGAETH: Y 'NORMAL NEWYDD'**

Wrth inni symud allan o'r ymateb i'r argyfwng presennol, mae gennym gyfle i fyfyrion ar yr hyn a gyflawnwyd, myfyrion ar y nifer mawr o enghreifftiau o ragoriaeth ac arloesedd o'r ychydig wythnosau diwethaf a phenderfynu sut y gallwn gynllunio a datblygu gwasanaethau cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae gennym gyfle i ailosod gwasanaethau ac ystyried beth y gallwn ei ddysgu o'r diwylliant presennol o wneud 'beth bynnag sydd ei angen' er mwyn sicrhau y caiff pawb eu hail-letya a'u cefnogi mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ac yn sicrhau eu bod yn llwyddo i symud ymlaen.

Mae ein [Strategaeth Digartrefedd](#) yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer atal digartrefedd fel yr egwyddor arweiniol gyntaf ond, pan na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn rhywbeth byrhoedlog nad yw'n digwydd eto.

Wrth wraidd ein hegwyddorion, er mwyn sicrhau ei fod yn rhywbeth byrhoedlog nad yw'n digwydd eto, mae mabwysiadu ailgartrefu cyflym ledled Cymru. Mae ailgartrefu cyflym yn dechrau drwy ddarparu tai hirdymor i bobl, ac yn cynnig cymorth ychwanegol a dwys ar adegau, os bydd ei angen er mwyn eu helpu i'w cadw a ffynnu. Bydd y ffocws ar ddarparu tai sefydlog a chymorth priodol cyn gynted â phosibl i'r rhai y mae eu hangen arnynt drwy amrywiaeth o fodolau, gan gynnwys Tai yn Gyntaf, cymorth tenantiaeth ac allgymorth grymusol. Bydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar dai argyfwng wrth inni geisio sicrhau atebion cyflym sy'n seiliedig ar dai gyda'r cymorth cywir.

Gan fod bron 900 o bobl wedi cael eu rhoi mewn llety argyfwng, ynghyd â'r rhai a oedd mewn darpariaeth dros dro neu argyfwng eisoes, mae gennym gyfle unigryw i sicrhau na fyddant yn wynebu digartrefedd mynych.

Bellach, mae gennym gyfle i edrych yn ofalus ar y mathau o lety rydym yn eu cynnig ledled Cymru. Er ein bod yn dal yn ymrwymedig i symud i ffwrdd o lety dros dro, rydym yn cydnabod y bydd angen rhywfaint o hyd yn y byrdymor/tymor canolig tra byddwn yn adeiladu ac yn sicrhau'r nifer angenrheidiol o gartrefi fforddiadwy hirdymor. Felly, mae angen inni arloesi er mwyn cynnig llety dros dro a lled-barhaol o ansawdd uchel sy'n cynnig 'cartref' gydag urddas a sicrhau bod modelau darparu yn gynaliadwy yn y byrdymor/tymor canolig.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydbwysu'r angen i ddarparu atebion byrdymor yn ystod cam 2 â'r awydd hirdymor i osgoi buddsoddi adnoddau cyfyngedig mewn llety anaddas. Nid yw cynnig 'arwynebedd llawr' na 'phodiau' yn dderbyniol mwyach; mae'n rhaid inni symud yn gyflym ac yn barhaol i ddarparu mathau newydd o lety byrdymor sy'n bodloni disgwyliadau sylfaenol ac yn diwallu anghenion pobl sy'n wynebu bod yn ddigartref yng Nghymru.

## **SUT I GYFLAWNI EIN NOD: CEFNOGI, CYNLLUNIO, ADEILADU, TRAWSNEWID**

Mae pedwar gofyniad hanfodol:

**Cefnogi** – parhau i gefnogi pobl sy'n dal i gysgu allan, pawb mewn darpariaeth argyfwng (y rhai a oedd yno cyn yr argyfwng hwn a'r rhai y daethpwyd â nhw i mewn iddi yn ystod yr argyfwng) a'r rhai sydd newydd ddod yn ddigartref – gan flaenoriaethu symud ymlaen yn gyflym drwy rannu unigolion yn garfanau priodol er mwyn diwallu a blaenoriaethu anghenion cymorth gwahanol.

**Cynllunio** – paratoi cynlluniau pontio clir ar gyfer gwasanaethau a darpariaeth sy'n nodi sut y byddant yn symud ymlaen tuag at ddarparu modelau mwy gynaliadwy o lety a chymorth sy'n diwallu anghenion pawb sydd mewn darpariaeth argyfwng ar hyn o bryd ac unigolion a fydd yn mynd yn ddigartref yn y dyfodol.

**Adeiladu** – arloesi, ailfodelu, caffael ac adeiladu llety i wella ansawdd darpariaeth argyfwng a sicrhau bod mwy o lety symud ymlaen a llety â chymorth parhaol a lled-barhaol ar gael.

**Trawsnewid** – ymrwymo i symud yn gyflym i ffwrdd o ddefnyddio llochesau nos ac 'arwynebedd llawr' a dulliau gweithredu lle mae angen cryn dipyn o adnoddau, yn enwedig gan y sector gwirfoddol, i gefnogi pobl sy'n cysgu allan a **chynllunio** sut i wneud hynny. Yn hytrach, mae'n rhaid inni flaenoriaethu, fel mater o frys, ddarpariaeth argyfwng o ansawdd gwell sy'n helpu pobl i ddychwelyd i dai parhaol yn gyflym, gan ei gwneud yn bosibl i wasanaethau stryd flaenoriaethu allgymorth grymusol sy'n canolbwyntio ar ddatrys digartrefedd.

## **AGWEDD AC EGWYDDORION ALLWEDDOL AR GYFER CYNLLUNIO**

Gofynnir nawr i awdurdodau ddatblygu **Cynllun Cam 2**, a fydd yn sail i gais am gyllid i'r gronfa untro newydd gwerth £20m. Bydd y cynllun yn nodi sut mae pob ardal, gan gydweithio â'i gilydd, yn bwriadu sicrhau, yn yr hirdymor, y caiff pob unigolyn sy'n byw ar hyn o bryd mewn math o lety dros dro yng Nghymru a'r rhai sy'n parhau i fynd i adrannau digartrefedd awdurdodau lleol eu hadsefydlu ac y darperir ar gyfer y cynnydd disgwylidig mewn digartrefedd wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

Wrth ddatblygu'r cynllun, dylai awdurdodau ystyried y canlynol a sicrhau yr ymdrinnir â nhw yn y cynllun (nodir y rhain yn fanylach yn yr adran nesaf):

- a) Rhoi protocol symud ymlaen ar waith sy'n seiliedig ar ailgartrefu cyflym.
- b) Gwella ansawdd atebion llety argyfwng/dros dro a lleihau'r ddibyniaeth arnynt.
- c) Sicrhau bod ailgartrefu cyflym wrth wraidd gwasanaethau a defnyddio amrywiaeth o fodlau cymorth (h.y. Tai yn Gyntaf, Ymyriadau Cyfnod Allweddol, cymorth fel y bo'r angen, allgymorth grymusol) i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- d) Cynyddu nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- e) Cynyddu nifer y tai rhent preifat sydd ar gael i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- f) Sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto i roi llety i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- g) Rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- h) Cyfranogiad amlasiantaethol ar lefel strategol ac yn y gwaith o ddarparu cymorth.
- i) Mabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol a thrawma ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau o fewn awdurdodau lleol, gwasanaethau tai a darparwyr cymorth (gan gynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau).
- j) Sicrhau'r cyfuniad priodol o gymorth o bell a chymorth wyneb yn wyneb a bod y cymorth hwnnw'n cael ei ddarparu'n ddiogel.
- k) Gwella sgiliau gwirfoddolwyr lleol ac asedau cymunedol a'u grymuso er mwyn helpu i ddarparu ymateb strategol a chydgyssylltiedig er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd.
- l) Dull cydweithredol o gynllunio a darparu gwasanaethau.
- m) Atebion i bobl Nad oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus.

## **GOFYNION CYNLLUNIAU PONTIO**

### **a) Protocol symud ymlaen sy'n seiliedig ar ailgartrefu cyflym.**

I ddechrau bydd yn rhaid i bob awdurdod ganolbwyntio ar ddatblygu **protocol symud ymlaen** ar gyfer ailgartrefu'r rhai mewn llety argyfwng/dros dro mewn llety parhaol mwy addas.

Dylai'r protocol alluogi awdurdodau lleol i gynnal asesiad brysbennu cyflym gan ddefnyddio dull amlasiantaethol o fesur a diwallu anghenion pobl o ran cymorth a llety. Dylai gynnwys yr elfennau/camau canlynol o leiaf:

### **CAM 1: Ymarfer Mapio: Darparu llety a chymorth**

Bydd yn rhaid i awdurdodau fesur lefel y llety a'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yn eu hardal, a ddylai gynnwys ystyried y canlynol:

- Lleoliad – gan gynnwys y gallu i gael gafael ar wasanaethau iechyd a chymorth
- Deiliadaeth – y sector rhentu cymdeithasol a'r sector rhentu preifat
- Fforddiadwyedd – a yw cost y llety o fewn cyfraddau'r lwfans tai lleol neu y tu allan iddynt (ac, os yw y tu allan iddynt, sut y gall awdurdodau dalu cost y tai).
- Maint: Llety sengl, llety teuluol, llety a rennir
- Hygyrchedd – i bobl ag anabledau neu broblemau iechyd corfforol

Bydd angen i awdurdodau ddatblygu trefniadau gwaith agos rhwng timau sy'n darparu gwasanaethau allgymorth a helpu staff mewn hosteli a llety â chymorth i ddeall y capasiti sydd ar gael ym mhob ardal. Dylai awdurdodau ystyried cyfuno timau mynediad presennol y sector rhentu preifat â'r timau dyrannu er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson.

### **CAM 2: Ymarfer mapio: Anghenion llety a chymorth**

Dylai awdurdodau ddatblygu a defnyddio proses gyson ar gyfer asesu anghenion llety a chymorth unigolion yn gyflym er mwyn helpu i ddatblygu **cynllun tai unigoleddig ar gyfer** pob unigolyn sy'n byw mewn llety dros dro ac unrhyw bobl newydd sy'n ddigartref. Dylai awdurdodau asesu anghenion llety a chymorth pob unigolyn a sicrhau eu bod yn deall yr anghenion hynny'n llawn a llunio cynllun sy'n ymdrin â phob cam o'r broses (h.y. cyn, yn ystod ac ar ôl i unigolyn gael ei adsefydlu).

Dylai awdurdodau lleol asesu'r cynnydd tebygol mewn digartrefedd gan gynnwys achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol y rhoddir gwybod amdanynt ar ôl i'r mesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu llacio.

Dylai'r cynlluniau ystyried anghenion llety (deiliadaeth, daearyddiaeth, fforddiadwyedd) a gofynion o ran cymorth gan gynnwys anghenion o ran iechyd, camddefnyddio sylweddau a/neu gymorth iechyd meddwl y bydd angen eu bodloni er mwyn sicrhau y gall unigolyn gynnal llety. Mae **Atodiad A** yn cynnwys rhestr wirio ar ffurf cwestiynau/meysydd y mae angen eu hystyried yn ystod y cam hwn.

Mae'n hanfodol bwysig bod y cynllun hwn yn ystyried gwybodaeth a phrofiadau gwasanaethau eraill sydd wedi rhoi cymorth i unigolion, mewn rhai achosion am sawl blwyddyn. Bydd yn rhaid cydgysylltu â gwasanaethau megis gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl wrth ddatblygu cynlluniau ail-letya personoleddig. Er mwyn arbed amser, byddai'n briodol i'r gweithgarwch cydgysylltu hwn ddigwydd er mwyn trafod sawl cynllun yn hytrach na fesul achos.

**CAM 3:** Unwaith y bydd gan awdurdodau ddealltwriaeth o anghenion unigol gallant wedyn flaenoriaethu a dylent allu nodi'r ystod o opsiynau tai a chymorth sydd eu hangen er mwyn diwallu gwahanol anghenion gwahanol garfanau. Dylai awdurdodau



roi system ar waith ar gyfer rhannu pobl yn 'Garfanau' yn seiliedig ar y modelau o gymorth sydd eu hangen a nodi a) nifer y bobl y mae angen pob model arnynt a b) y staff a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion pob carfan.

Mae pobl a oedd wedi bod yn cysgu allan am amser hir yn flaenorol ond sydd bellach yn ymgysylltu'n llwyddiannus â chymorth a/neu wasanaethau triniaeth yn debygol o wynebu'r risg o gael eu niweidio fwyaf os byddant yn mynd yn ddigartref eto. Mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu blaenoriaethu'n briodol er mwyn sicrhau y gallwn adeiladu ar eu llwyddiannau, na fyddwn yn colli'r cyfle hwn i ddod o hyd i ateb parhaol a'u bod yn osgoi dychwelyd i'r strydoedd.

Ni ddylai'r broses rhannu'n garfanau ystyried bwriadoldeb, cysylltiad lleol na hanes blaenorol o ymgysylltu.

Bydd angen i'r broses rhannu'n garfanau gael ei hasesu'n barhaus wrth i achosion newydd ymuno â llwythi gwaith lleol.

### **b) Gwella ansawdd atebion llety argyfwng/dros dro a lleihau'r ddibyniaeth arnynt.**

Darparu llety sefydlog hirdymor fydd nod cyffredinol pob gwasanaeth digartrefedd o hyd yn yr hirdymor, ond rydym yn cydnabod y bydd hyn yn anodd iawn o ystyried nifer y bobl sydd wedi cael cymorth i gael llety yn ystod y pandemig. Felly, mae'n hollbwysig bod awdurdodau yn gwella ansawdd llety argyfwng a llety dros dro sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd ac yn sicrhau bod amrywiaeth ehangach o lety o'r fath ar gael yn y byrdymor a'r tymor canolig.

Dylai fod gan awdurdodau ddull cydgysylltiedig o gaffael eiddo gyda phartneriaethau lleol (e.e. y cyngor, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y sector rhentu preifat a sefydliadau cyhoeddus ac ati) a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i gyflymu'r broses a sicrhau, wrth fynd ati i gaffael llety dros dro, mai dim ond yr hyn sy'n gwbl anghenrheidiol a gaiff ei ddarparu.<sup>1</sup>

Dylai awdurdodau fanteisio i'r eithaf ar yr holl adnoddau sydd ar gael iddynt, p'un a ydynt yn lleoliadau cymdeithasol, preifat neu lety â chymorth, er mwyn cyflawni hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried yr egwyddorion canlynol er mwyn sicrhau ansawdd, addasrwydd a phriodoldeb.

### **Beth nad yw'n lle/llety derbyniol ?**

Nid ystyrir bod yr atebion canlynol yn dderbyniol mwyach:

- Arwynebedd llawr
- Darparu pebyll a sachau cysgu

---

<sup>1</sup> Yn yr Alban mae rhai awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dulliau o ymdrin â llety dros dro y gallwn ddysgu ohonynt, e.e. Midlothian a Fife. Disgrifir y dulliau hyn o weithredu yn adroddiad Crisis ar gynlluniau pontio ailgartrefu cyflym yn yr Alban: [https://www.crisis.org.uk/media/241640/crisis\\_rapid-rehousing-report\\_web\\_spreads\\_v2.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/241640/crisis_rapid-rehousing-report_web_spreads_v2.pdf)

- 'Podiau' neu 'Porta Cabins' – nid ystyrir bod y rhain yn llety modiwl ar addas mwyach. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllaw manwl maes o law ar opsiynau modiwl ar addas.

### Atebion lle/llety derbyniol

Anogir awdurdodau i ystyried ehangu eu stoc o lety dros dro er mwyn sicrhau eu bod yn opsiynau dilys, priodol i bobl ag amrywiaeth o nodweddion ac anghenion cymorth. Golyga hyn, er enghraifft, ddarpariaeth sy'n benodol i fenywod, darpariaeth hygyrch i bobl anabl, darpariaeth sy'n caniatáu anifeiliaid anwes a darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n parhau i fod yn gaeth i sylweddau a'r rhai sydd am leihau eu hamlygiad i eraill sy'n dal i ddefnyddio sylweddau.

Mae'n amlwg mai'r math gorau o lety yw llety hunangynhwysol o ran cyfleusterau ystafell ymolchi a choginio a bwyta, ond os na fydd yn bosibl darparu llety o'r fath, dylid ystyried casglu ynghyd fodolau llety sy'n darparu ar gyfer lleoli gwasanaethau wedi'u halinio yn yr un bloc (h.y. gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn benodol). Gall hyn olygu prynu llety myfyrwyr, llety gwyliau neu hosteli nas defnyddir neu eu rhentu ar brydles, neu gallai olygu ailfodelu darpariaeth bresennol neu'r ddau.

Opsiynau sydd ar gael:

- Canolfannau Brysbennu Mae rhai awdurdodau yn ymchwilio i'r defnydd posibl o Ganolfannau Brysbennu sy'n llety gwell tebyg i hostel lle y gellir cefnogi pobl yn y byrdymor tra bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch y llety a'r cymorth mwyaf priodol i'w helpu i symud ymlaen i ateb llety parhaol, p'un a fyddant yn symud i lety â chymorth lle mae anghenion yn cyrraedd pwynt penodol, neu drwy lwybrau tai preifat neu gymdeithasol prif ffrwd.

Y tair egwyddor i Ganolfan Frysbennu lwyddiannus yw bod yn rhaid iddi fod yn:

- Llety meddiannaeth unigol – Dylai fod gan y llety 'en-suite' o leiaf ond, yn ddelfrydol, dylai hefyd gynnwys cegin fach â sinc a microdon;
  - Cynhwysol – Sicrhau bod y ddarpariaeth yn cwmpasu pob grŵp (h.y. dynion a menywod, pobl ifanc, y rhai ag anifeiliaid anwes, ac ati). Gall hyn gynnwys adeiladau gwahanol, mynedfeydd neu loriau gwahanol i garfanau gwahanol;
  - Ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos – Mae staff ar ddyletswydd yn golygu y gall llety argyfwng fod ar gael bob adeg o'r dydd, bob dydd;
  - Dull hyb – Mae'r ganolfan yn darparu ar gyfer dull amlasiantaethol a chydleoli gyda gwasanaethau allweddol megis gwasanaethau iechyd sylfaenol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- Defnyddio llety dros dro at ddiben arall: Gallai hyn gynnwys awdurdodau yn helpu darparwyr llety dros dro i addasu gwasanaethau presennol yn fathau mwy parhaol a chefnogol o lety sy'n fwy ystyriol o gyflwr seicolegol. At hynny, dylid ystyried cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer llety dros dro hunangynhwysol a'r potensial ar gyfer troi adeiladau sy'n bodoli eisoes, megis hen gartrefi gofal, blociau prifysgol wedi'u datgomisiynu, hosteli ac unedau gwely a brecwast yn fathau tymor hwy o lety argyfwng. Byddai hyn yn helpu i hwyluso'r broses bontio

yn ogystal â chydabod y galw uwch. Dylai hwn fod yn llety meddiannaeth unigol â chyfleusterau en-suite.

- **Llety modiwlwr:** Mae gwahanol fathau o lety modiwlwr wedi'u defnyddio ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fel y nodwyd uchod, nid ystyrir bod pob math o lety modiwlwr yn addas wrth inni symud ymlaen i drawsnewid gwasanaethau a darpariaeth. Mae'n rhaid i unrhyw fuddsoddiad mewn llety modiwlwr fod yn fuddsoddiad mewn darpariaeth o ansawdd uchel, sy'n cynnig cartref meddiannaeth unigol sy'n cynnig nid yn unig ateb byrdymor ond hefyd yr hyblygrwydd i symud y ddarpariaeth i ddarparu opsiwn tai tymor hwy. Pan gaiff ei ddefnyddio fel darpariaeth argyfwng byrdymor, mae tystiolaeth yn awgrymu ei fod yn gweithio orau pan gaiff ei roi yng nghyd-destun cymorth a phan fo lleoliad y llety yn ddiogel mewn perthynas â'r gymuned a'r unigolyn. Mae'r enghreifftiau gorau wedi bod o fewn caeadleoedd gwasanaethau digartrefedd sy'n bodoli eisoes lle nad oedd yn bosibl eu gweld o'r stryd.

Gall microbentrefi bach o lety modiwlwr fod yn briodol ar gyfer arosiadau hwy ar yr amod bod anghenion a nodwyd a bod y pecynnau cymorth angenrheidiol ar gael er mwyn helpu unigolion i symud i lety sefydlog mwy parhaol yn y pen draw.

### **c) Sicrhau bod ailgartrefu cyflym wrth wraidd gwasanaethau a defnyddio amrywiaeth o fodolau cymorth ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref**

Mae'r adran hon hefyd yn cyfeirio at y math o gymorth sydd ei angen er mwyn parhau i ymgysylltu â'r unigolion hynny sy'n dal i gysgu ar ein strydoedd neu sy'n cysgu allan yn ystod y cyfnod pontio.

Fel rhan o'r broses gynllunio, dylai awdurdodau lleol geisio cynyddu nifer yr opsiynau ar gyfer symud ymlaen a sicrhau bod digon o opsiynau addas a chynaliadwy ar gyfer symud ymlaen yn cael eu darparu i'r rhai sy'n byw mewn llety argyfwng/dros dro. Dylai hyn gynnwys atebion llety ac amrywiaeth o wahanol fodolau cymorth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r pedwar model canlynol o gymorth y dylai awdurdodau ganolbwyntio arnynt. Bydd y modelau cymorth sydd fwyaf addas i unigolion yn adlewyrchu eu hanghenion cymorth, eu dwyster a'u hyd. Dylai'r matrices asesu dangosol yn **Atodiad B** a'r model cymorth dangosol helpu i lywio gweithgarwch cynllunio ar gyfer symud ymlaen.

- **Tai yn Gyntaf** yw'r dull gweithredu diofyn ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth iawn sydd â hanes o ddiartrefedd/cysgu allan mynych a/neu sy'n ei chael hi'n anodd cynnal unrhyw fathau o lety (p'un a yw'n hostel, yn llety â chymorth neu'n llety annibynnol).

Mae cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae wedi'i anelu at helpu unigolion i ymgysylltu â chymorth yn gyntaf; eu helpu i gael eu paru â'r denantiaeth sydd fwyaf addas iddynt; ac wedyn eu helpu i gynnal eu llety am gyhyd ag y bydd ei angen ar ôl iddynt gael eu lleoli. Mabwysiedir dull gweithredu cyfannol mewn perthynas â materion eraill, a mabwysiedir dull gweithredu sy'n

seiliedig ar leihau niwed yn hytrach na mynnu cydymffurfiaeth ag amcanion triniaeth penodol. Gall y llety gael ei ddarparu o dan denantiaethau tai cymdeithasol neu denantiaethau rhentu preifat, ond mae'n bwysig sicrhau bod gan yr unigolyn gymaint o ddewis a rheolaeth â phosibl (o fewn y cyfyngiadau arferol).

Dylai awdurdodau lleol fesur anghenion y carfanau ac anghenion unigolion am gymorth Tai yn Gyntaf fel rhan o'r asesiad o angen. Dylai'r gymhareb staff:cleient fod tua 1:5-8, ond dylai fod yn hyblyg yn seiliedig ar wahanol lefelau o anghenion cymorth ar gamau gwahanol.

Ar gyfer y rhai sy'n bodloni'r meini prawf, anogir gwasanaethau i'w cefnogi mewn ffordd sy'n bodloni cymaint o'r [egwyddorion allweddol](#) â phosibl er mwyn sicrhau eu bod yn pontio'n llwyddiannus. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu ei bod yn llai tebygol y cânt eu hadsefydlu'n llwyddiannus.

- Gall **Ailgartrefu cyflym ag Ymyriadau Cyfnod Allweddol** helpu i ddiwallu anghenion pobl a chau'r bwch rhwng digartrefedd (gan gynnwys pobl mewn llety argyfwng) a bywyd yn y gymuned, er mwyn sicrhau parhad cymorth. Tra bydd Ymyriadau Cyfnod Allweddol â therfyn amser yn gallu cynnig cymorth dwysach, yn enwedig yn gynharach yn y broses, gyda dwyster y cymorth yn lleihau dros amser. Mae llwythi achos staff: cleient yn cyfateb i 1:15 fel arfer â hyblygrwydd, sydd i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod angen cymorth dwysach yn gynharach yn y broses (1:10-12 yn ystod y tri mis cyntaf).<sup>2</sup>

Bwriedir i Ymyriad Cyfnod Allweddol, sy'n dilyn llawer o egwyddorion allweddol Tai yn Gyntaf, ond y mae iddo derfyn amser o'r cychwyn, fod yn ddull gweithredu dwys i ddechrau gyda'r gweithiwr cymorth a'r cleient yn gweithio mewn partneriaeth gan ganolbwyntio ar nifer cyfyngedig o feysydd allweddol y nodwyd eu bod yn rhwystrau i ddod o hyd i lety wrth ddatblygu'r cynllun ail-letya. Gallai hyn fod mewn perthynas ag anghenion o ran camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl, ond gallai hefyd fod mewn perthynas â meithrin gwell dealltwriaeth o gymuned a chreu cysylltiadau cymdeithasol. Yn ogystal, bydd gweithiwr cymorth yr ymyriad cyfnod allweddol yn helpu gydag effaith emosiynol y broses o bontio i ateb llety mwy parhaol a gallai fod yn opsiwn o ran cymorth ôl-leoli dwys isel.

- Mae **Ailgartrefu cyflym â chymorth fel y bo'r angen** yn ddull gweithredu llawer llai dwys y bwriedir iddo gefnogi'r rhai â lefel isel o anghenion i gael llety. Fel arfer, mae'n cynnwys llwyth achos staff:cleient o tua 1:30-40, yn dibynnu ar y cymysgedd o anghenion yn y llwyth achos. Byddai rhai cleientiaid yn cael cymorth bob wythnos, byddai eraill yn ei gael bob pythefnos a byddai rhai yn ei gael bob mis, tra ei bod hefyd yn debygol y bydd angen hyblygrwydd bob amser pan fydd angen mwy o gymorth ar rywun ar wahanol adegau. Yn ystod cyfyngiadau symud y coronafeirws, gallai fod angen darparu mwy o gymorth o bell neu fwy o gymorth digidol nag y byddai angen ei ddarparu fel arfer.

---

<sup>2</sup> Gweler protocol symud ymlaen drafft Crisis am ragor o wybodaeth

Nid oes unrhyw amserlen benodol ar gyfer cymorth ond mae'n debygol y bydd ei angen am 6-12 mis, ac am fwy o amser yn achos rhai unigolion. Dylai allu bod yn hyblyg o ran dwyster gan ddod yn llai dwys fel arfer wrth i sefyllfaoedd pobl ddod yn fwy sefydlog. Yn debyg i Ymyriadau Cyfnod Allweddol, gall cymorth fel y bo'r angen fabwysiadu dull rheoli achosion a sicrhau bod cleientiaid yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth mwy arbenigol. Mae cymorth fel y bo'r angen yn gyfannol ei natur a bydd yn ymdrin ag amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys anghenion o ran cymorth symud ymlaen (gwella cyfalaf cymdeithasol, lleihau unigedd, dysgu, sgiliau a chyflogaeth) er mwyn sicrhau y gellir cynnal tenantiaeth.

- Mae **Allgymorth grymusol** yn fath penodol o allgymorth ar y stryd sy'n targedu'r rhai sy'n cysgu allan sydd wedi ymddieithrio fwyaf a chydabyddir ei fod yn fwy effeithiol nag allgymorth traddodiadol. Mae'n canolbwyntio ar roi llety i bobl, mae'r gwasanaeth yn amlddisgyblaethol ac mae'r cymorth yn barhaus, yn bwrpasol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Cyhoeddwyd yr adroddiad 'Allgymorth Grymusol: Egwyddorion ar gyfer Cymru'<sup>3</sup> ym mis Hydref 2019 ac mae'n nodi'r dull gweithredu y dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau anelu at ei fabwysiadu.

Mae **Atodiad C** yn rhoi mwy o fanylion am y gwahanol ddulliau gweithredu a'r egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys i'r tri dull gweithredu cyntaf.

### **d) Sicrhau bod mwy o dai cymdeithasol ar gael i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref**

Mae'n rhaid i'r broses o ddyrannu llety sy'n bodoli eisoes gyd-fynd â chynlluniau pontio awdurdodau lleol. Mae'n hanfodol bod pob landlord cymdeithasol, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac ALLau, yn chwarae eu rhan er mwyn sicrhau bod mwy o dai ar gael i bobl a gafodd eu lletya yn ystod cam un. Mae hyn yn cynnwys adolygu polisïau dyraniadau er mwyn sicrhau na chaiff pobl eu hallgáu'n ddiangen o dai cymdeithasol, bod eiddo yn cael ei ddefnyddio eto ac na roddir pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol drwy barhau â'n cydymdrech i roi terfyn ar achosion o droi allan sy'n arwain at ddigartrefedd.

Mae'r argyfwng presennol wedi arwain at rai arferion rhagorol mewn perthynas â gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn helpu i ateb yr her sy'n gysylltiedig â dod o hyd i lety i bawb. Mae'n rhaid i'r dull hwn o weithredu gael ei fabwysiadu ym mhob ardal ac mae'n rhaid iddo barhau hyd y gellir rhagweld er mwyn dod o hyd i gartrefi hirdymor i bawb sydd wedi cael eu lletya ac y bydd angen eu lletya.

Ochr yn ochr â hyn, ac wrth sicrhau diogelwch y contractwyr angenrheidiol, dylai darparwyr tai cymdeithasol barhau i roi blaenoriaeth i sicrhau bod yr holl stoc sydd ar gael yn cael ei defnyddio eto er mwyn ehangu portffolios yn lleol.

---

<sup>3</sup> [https://www.cymorthcymru.org.uk/files/7215/7130/0517/Assertive\\_Outreach\\_Principles\\_CYM\\_Final.pdf](https://www.cymorthcymru.org.uk/files/7215/7130/0517/Assertive_Outreach_Principles_CYM_Final.pdf)

### **e) Sicrhau bod mwy o dai rhent preifat ar gael i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref**

Mae pob awdurdod ledled Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau sydd â'r nod o ymgysylltu ac ehangu mynediad i'r sector rhentu preifat. Yn ogystal ag ymgysylltu â landlordiaid, mae'r cymorth hwn, mewn rhai ardaloedd, yn cynnwys darparu gwasanaethau rheoli ar ran landlordiaid. Mae'n hollbwysig bod y gwaith hwn yn parhau a, lle y bo'n bosibl, yn ehangu.

Mae'n debygol mai un o sgil-efeithiau'r pandemig hwn fydd cynnydd yn nifer y landlordiaid y mae eu tenantiaid yn ei chael hi'n anodd talu'r rhent a biliau eraill. Mae'n bosibl y bydd rhai landlordiaid yn fwy agored i weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi ymdrechion lleol yn ystod yr adferiad. Bydd angen gwybodaeth a chynghor ar rai landlordiaid yn ogystal â chymorth gyda'u tenantiaid er mwyn iddynt gynnal eu tenantiaethau a helpu i atal achosion o droi allan. Hefyd, efallai y gwelir cynnydd yn nifer yr eiddo rhent sydd ar gael mewn trefi a dinasoedd prifysgol, am y gallai nifer is o fyfyrwyr a/neu ddysgu o bell fod yn nodwedd ar y flwyddyn academaidd nesaf.

Efallai y bydd rhai landlordiaid yn fodlon prydlesu eu heiddo i awdurdodau lleol ar sail fyrdymor neu hirdymor neu werthu eu heiddo hyd yn oed, a allai helpu i gynyddu'r stoc o dai sydd ar gael i awdurdodau lleol.

Mae'n bwysig bod awdurdodau yn parhau i ymgysylltu â Rhentu Doeth Cymru, ond hefyd sicrhau y caiff gwybodaeth leol ei chasglu gan randdeiliaid eraill megis Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl (NRLA), Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) ac ARLA Propertymark er mwyn ehangu portffolios yn y dyfodol.

### **f) Sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto i roi llety i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref**

Bu rhai enghreifftiau clodwiw o waith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto. Dylai awdurdodau lleol barhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn nodi lle y gall fod cynnydd yn nifer yr eiddo gwag oherwydd COVID-19. Mae'n bosibl na fydd gan hen eiddo masnachol yng nghanol trefi denantiaid mwyach a gellid ei drawsnewid yn eiddo preswyl er mwyn cynyddu'r opsiynau tai sydd ar gael yn yr ardal leol.

### **g) Rhoi Cymorth i Bobl Ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref**

Dylid atal digartrefedd lle y bo'n bosibl, er enghraifft drwy helpu pobl ifanc i aros yn eu rhwydwaith teuluol drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfryngu mewn teuluoedd neu atal tenantiaeth rhag cael ei cholli drwy ddarparu cymorth a sgiliau tenantiaeth. Ar gyfer pobl ifanc y mae angen llety arnynt, dylai fod amrywiaeth o atebion llety fforddiadwy diogel a gweddus ar gael i ddiwallu eu hanghenion orau, megis llety â chymorth sy'n benodol i bobl ifanc.

Dylai gwasanaethau arbenigol i bobl ifanc hefyd gael eu defnyddio i ddarparu cyngor/cymorth mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gwasanaethau iechyd, sgiliau bywyd, sgiliau tenantiaeth ac unrhyw hawliau i fudd-daliadau. Efallai y bydd angen cymorth dwysach ar unigolion ag anghenion cymhleth. Dylai awdurdodau lleol hefyd edrych ar brosiectau cronfeydd arloesi Llywodraeth Cymru yn eu hardal sy'n cynnig atebion tai i bobl ifanc megis Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc.

Dylid hefyd ystyried darparu atebion tai fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n dibynnu ar y system les ac y cyfyngir arnynt, felly, gan y gyfradd llety a rennir.

## **h) Cyfranogiad amlasiantaethol ar lefel strategol ac yn y gwaith o ddarparu cymorth.**

Mae'n debygol na fydd darparu llety ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau tenantiaeth barhaol i lawer o bobl. Mae'n rhaid i unrhyw ddarpariaeth gael ei chefnogi gan wasanaeth cymorth cofleidiol er mwyn helpu'r unigolyn i gynnal ei denantiaeth, megis gwasanaethau cymorth tenantiaeth, cymorth iechyd meddwl a chymorth camddefnyddio sylweddau.

Yn ystod y pandemig, mae'r celloedd cydgysylltu canolog wedi meithrin cydberthnasau da ag asiantaethau megis yr heddlu a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac mae'n bwysig bod y rhain yn parhau i gam dau.

Argymhellir y dylid mabwysiadu dull gweithredu amlddisgyblaethol lle y bo'n briodol, ond dylai fod yn rhan o'r Ganolfan Frysbenneu o leiaf. Gallai tîm amlddisgyblaethol gynnwys yr elfennau canlynol:

- Gweithiwr Iechyd Meddwl
- Gweithiwr Cymorth Tai
- Eiriolwr
- Nyrs Gofal Sylfaenol
- Gweithiwr Camddefnyddio Sylweddau
- Mewnbyn Gweithiwr Cymdeithasol
- Gweithiwr Cymdeithasol Iechyd Meddwl
- Therapydd Galwedigaethol
- Y Gwasanaeth Prawf
- Gwasanaeth Rhagnodi Cyflym
- Gweithwyr Allgymorth Therapiwtig a mynediad at wasanaethau seicolegol wedi'u neilltuo
- Cwnselydd
- Cydgysylltydd Mentoriaid Cymheiriaid
- Rôl Ymgysylltu Cymunedol
- Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Dylai Cynlluniau Pontio Cam 2 nodi cynigion am sut y gellir datblygu ac wedyn mabwysiadu dull gweithredu amlddisgyblaethol ym mhob awdurdod lleol cyn cam 3.

Yn benodol, dylai awdurdodau lleol weithio'n agos gyda Byrddau Iechyd a Byrddau Cynllunio Ardal er mwyn sicrhau y gall pobl gael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl a thriniaeth camddefnyddio sylweddau yn gyflym. Bu rhai enghreifftiau clodwiw o gydweithio yn ystod y pandemig hwn lle mae nifer o bobl mewn llety argyfwng wedi dechrau triniaeth ac mae'n rhaid i hyn barhau wrth inni fynd i mewn i gam 2.

Dylai lleihau niwed fod wrth wraidd cymorth camddefnyddio sylweddau a dylai partneriaid barhau i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal er mwyn sicrhau y gall unigolion gael gafael ar wasanaeth rhagnodi cyflym a thriniaethau amgen (megis bwprenoffin y gellir ei chwistrellu) wrth inni fynd i mewn i gam 2. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn helpu pobl i bontio i lety mwy parhaol a'i gynnal yn yr hirdymor.

### **i) Dull gweithredu sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol a thrawma ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau o fewn awdurdodau lleol, gwasanaethau tai a darparwyr cymorth**

Mae llawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd wedi wynebu trawma cymhleth lluosog yn eu bywydau ac maent yn byw gyda'r effaith seicolegol ar eu bywydau. Mae pandemig COVID-19 yn debygol o gynyddu amlygiad pobl i drawma ac mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effeithiau seicolegol sylweddol ar bobl sy'n defnyddio ac yn darparu gwasanaethau am flynyddoedd lawer i ddod. O ganlyniad, mae'n bwysicach fyth bod gwasanaethau yn ystyriol o gyflwr seicolegol ac yn darparu cymorth clinigol priodol i staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Mae Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol yn ystyried cyfansoddiad seicolegol eu cyfranogwyr yn y ffordd y maent yn gweithredu – y meddyliau, yr emosiynau, y personoliaethau a'r profiad blaenorol o drawma. Bwriedir iddynt helpu staff a gwasanaethau i ddeall y rhesymau dros yr ymddygiadau heriol hyn (fel y'u gelwir) er mwyn iddynt allu gweithio'n fwy creadigol ac adeiladol gyda phobl. Fel rhan o'r dull hwn o weithredu, dylai gwasanaethau fod yn gweithio o fewn fframwaith therapiwtig eang, sy'n eu galluogi i ddatblygu ymatebion clir a digon cyson i gleientiaid a all fod yn anhrefnus ac yn teimlo'n ofidus ac sydd wedi dysgu peidio ag ymddiried yn neb.

Dylid comisiynu a darparu gwasanaethau cymorth gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ac sy'n cydnabod effaith trawma ac yn ymateb yn briodol i hynny. Dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau darparu gwasanaethau yn cael eu llywio gan bum elfen allweddol amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol:

- Fframwaith seicolegol
- Cydberthnasau
- Amgylchedd ffisegol a chymdeithasol
- Hyfforddiant a chymorth i staff
- Tystiolaeth a dysgu



Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo'r cymorth sy'n cael ei ddarparu mewn lleoliadau llety dros dro, ac wrth ymdrin ag anghenion cymhleth neu bobl sy'n ymddwyn yn heriol.

### **j) Sicrhau'r cyfuniad priodol o gymorth o bell a chymorth wyneb yn wyneb a bod y cymorth hwnnw'n cael ei ddarparu'n ddiogel.**

Oherwydd y pandemig a chynghor iechyd y cyhoedd ynglŷn â rheolau cadw pellter cymdeithasol a hunanynysu, mae llawer o wasanaethau wedi mabwysiadu dulliau digidol/rhithwir amgen er mwyn parhau i ddarparu'r cymorth hanfodol hwn o bell. Rydym yn disgwyl i'r angen hwn barhau am beth amser hyd yn oed wrth i reolau cadw pellter cymdeithasol lacio ac, felly, dylai darpariaeth cymorth ymgorffori strategaeth 'gweithredu o bell' er mwyn i chi allu darparu mwy o'ch gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaethau dros y ffôn, ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol pan fo angen.

Dylai awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau ystyried a fyddai elfennau o gymorth rhithwir yn opsiwn defnyddiol i'w gadw ar ôl i'r pandemig ddod i ben. Efallai y bydd yn well gan rai pobl y ffordd hon o ymgysylltu â'r gweithiwr cymorth, yn enwedig pobl ifanc. Gallai hefyd fod o fudd i bobl mewn ardaloedd gwledig (yn dibynnu ar argaeledd band eang), lle mae gwasanaethau yn fwy gwasgarog ac mae cysylltiadau trafniadaeth yn fwy heriol).

Fodd bynnag, bydd angen cymorth wyneb yn wyneb ar lawer o bobl a dylai awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaid i ddatblygu arferion gwaith diogel wrth iddynt ddychwelyd i'r dull hwn o ddarparu cymorth. Dylai pob partner gydnabod yr ofn a fydd ar rai aelodau o staff a gwneud popeth o fewn ei allu er mwyn sicrhau na fydd yr un aelod o staff yn teimlo ei fod yn peryglu ei hun yn ddiangen. Dylai pob awdurdod lleol, gwasanaeth tai a darparwr cymorth sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau a nodir yn Nodyn Cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Lleoliadau Tai, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chymorth<sup>4</sup>.

### **k) Gwella sgiliau gwirfoddolwyr lleol ac asedau cymunedol a'u grymuso er mwyn helpu i ddarparu ymateb strategol a chydgyssylltiedig er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd.**

Ers tro byd mae gwirfoddolwyr lleol wedi darparu gwasanaethau gwerthfawr i gefnogi pobl sy'n ddigartref, ond wrth inni symud i'r 'Normal Newydd' gydag ailgartrefu cyflym wrth wraidd ein strategaeth, mae angen inni sicrhau bod egni a brwdfrydedd pobl ac asedau cymunedol yn cael eu harneisio er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Mae llawer wedi ennill ymddiriedaeth pobl leol, maent yn ennyn tosturi tuag at bobl sy'n ddigartref a gallant fanteisio ar ewyllys da pobl er mwyn eu hannog i godi arian a rhoi cymorth ymarferol.

Dylai awdurdodau lleol ystyried sut y gallant gynnwys grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd lleol fel rhan o drafodaethau mwy strategol sy'n canolbwyntio ar atebion

---

<sup>4</sup> <https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/information-for-healthcare-workers-in-wales/housing-health-social-care-and-support-settings-examples-to-inform-implementation-of-the-updated-infection-prevention-and-control-guidance-covid-19/>

strategol hirdymor i ddigartrefedd. Bydd cyfathrebu effeithiol yn hanfodol a dylent geisio darparu hyfforddiant a chymorth priodol er mwyn helpu gwirfoddolwyr i ddod yn rhan o fodolau darparu mwy cynaliadwy megis allgymorth grymusol.

## **I) Dull cydweithredol o gynllunio a darparu gwasanaethau**

**Partneriaethau lleol:** Mae wedi bod yn wych gweld cydweithredu mor effeithiol rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid o fewn y celloedd cydgysylltu canolog, wrth iddynt rannu gwybodaeth, cynlluniau wrth gefn ac adnoddau yn ystod y pandemig hwn. Mae'n rhaid i'r dull hwn o weithredu barhau wrth inni geisio sicrhau bod pobl mewn llety argyfwng yn cael atebion tai mwy parhaol – ac wrth inni drawsnewid gwasanaethau digartrefedd ar gyfer yr hirdymor.

Dylai celloedd cydgysylltu canolog addasu i gyflawni nodau cynlluniau cam 2 er mwyn sicrhau y caiff pob partner ei gynnwys yn y broses gynllunio ac y bydd yn parhau i rannu gwybodaeth am anghenion, capasiti ac adnoddau. Rydym hefyd yn annog awdurdodau lleol a'u partneriaid amlasiantaethol i barhau i weithredu ag ysbryd o ymddiriedaeth a bod yn agored, gan gynnig hyblygrwydd er mwyn helpu ei gilydd i wireddu'r weledigaeth a rennir i roi terfyn ar ddigartrefedd.

**Gweithio rhanbarthol:** Lle y bo'n briodol, byddem yn annog awdurdodau i weithio'n rhanbarthol er mwyn mynd i'r afael â heriau neu anghenion penodol. Bydd gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn hanfodol i roi terfyn ar ddigartrefedd yn llwyddiannus a dylai manteision ymgysylltu'n rhanbarthol â Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl, Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a Byrddau Comisiynu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fod yn rhan o ddull gweithredu rhanbarthol cydweithredol.

## **m) Dod o hyd i atebion i bobl Nad oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus.**

Tra bod yr argyfwng iechyd cyhoeddus presennol yn parhau, rydym yn parhau i gynghori awdurdodau lleol i ddefnyddio pwerau a chyllid amgen i ddarparu lloches argyfwng a chymorth i'r rhai nad oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus.

Nid yw safbwynt Llywodraeth y DU ynglŷn â'r rhai Nad oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus wedi newid. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid ehangach er mwyn ystyried yr opsiynau posibl sydd ar gael i gefnogi unigolion Nad oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus yn y tymor hwy, gan gynnwys drwy gynlluniau lletya.

## **CYFLWYNO CYNLLUNIAU A CHAIS AM GYLLID**

Bydd angen i awdurdodau ddatblygu eu cynllun pontio cam 2 ar y cyd â phartneriaid yn y sector landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y sector cyhoeddus a'r trydydd

sector, a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cais am gyllid ar gyfer y gronfa newydd gwerth £20m erbyn **30 Mehefin 2020**.

Dylai awdurdodau ddefnyddio'r templed a ddarperir gan Lywodraeth Cymru at y diben hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth uniongyrchol i awdurdodau neu grwpiau o awdurdodau a'u partneriaid er mwyn eu helpu i ddatblygu eu cynlluniau.

## Atodiad A: Dulliau gweithredu a awgrymir ar gyfer asesu anghenion llety a chymorth

### Asesiad

#### Incwm a hawliau

Bydd incwm unigolyn (neu ei hawl i gael incwm) yn dylanwadu ar y llety y gall ei fforddio. Ar hyn o bryd, mae ein system fudd-daliadau yn cyfyngu'r costau tai y gall y rhan fwyaf o bobl o dan 35 oed eu hawlio i lefel is.

Ffynhonnell yr incwm	A oes angen llety o fewn cyfradd y Lwfans Tai Lleol arno?	A allai gyfrannu at dalu cost y llety uwchlaw cyfradd y Lwfans Tai Lleol?
Gweithio'n Llawn Amser		
Gweithio'n Rhan-Amser		
Pensiwn		
Credyd Cynhwysol		
Credyd Cynhwysol ynghyd â thaliadau annibyniaeth personol/incwm ychwanegol arall		
Dim incwm ond hawl i'w gael		
Heb fod â'r Hawl i Gyllid Cyhoeddus – ond gallai fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Adsefydlu'r UE		
Heb fod â'r Hawl i Gyllid Cyhoeddus		
Arall		

#### Gofynion o ran llety

Dylid ystyried y canlynol:

- **Lleoliad** – ardaloedd y bydd pobl yn eu derbyn (gan nodi y bydd angen cynnal sgysrsiau realistig ynghylch yr hyn sy'n bosibl ac yn fforddiadwy o fewn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol).  
Dylid coladu pecynnau gwybodaeth am lwybrau trafndiaeth, cyfleusterau lleol (Canolfan Byd Gwaith, llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden, manau agored ac ati) a gwasanaethau cymunedol ac arbenigol (meddygon teulu, gwasanaethau triniaeth, canolfannau dydd, grwpiau cymorth cymunedol) ar gyfer yr ardal leol.
- **Deiliadaeth** – dylid cynnal sgysrsiau ynghylch y deiliadaethau sydd ar gael gan gynnwys sgysrsiau â darparwyr cofrestredig am y stoc gymdeithasol sydd ar gael. Efallai y bydd y sector rhentu preifat yn cynnig llai o sicrwydd ond mwy o ddewis o ran lleoliad.
- **Fforddiadwyedd** – a ellir talu cost y llety neu, os na ellir ei thalu, sut y gellir ariannu'r diffyg yn y byrdymor a'r hirdymor.

- **Maint** – h.y. llety sengl, llety teuluol, llety a rennir.
- **Hygyrchedd** – h.y. mynediad ar y llawr gwaelod/gan ddefnyddio lifftiau; hygyrch (e.e. i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn); a all pobl fynd ag anifeiliaid anwes, dodrefn a chyfarpar (nwyddau gwyn, gan gynnwys peiriannau golchi, poptai ac oergelloedd) gyda nhw i'r llety
- **Cyfarpar** – mae angen ystyried deunyddiau glanhau (gan gynnwys sugnwyr llwch, mop a bwcedi), dillad gwely a charpedi/llenni a'u darparu o fewn cyfnod rhesymol o amser.

### Gofynion o ran cymorth:

Yn ogystal â gofynion o ran llety, mae'n hanfodol bwysig bod anghenion llety yn cael eu hasesu a'u hystyried yn llawn er mwyn sicrhau bod opsiynau ar gyfer symud ymlaen yn gynaliadwy yn y byrdymor a'r tymor hwy.

Wrth asesu cymorth, mae'n bwysig bod lefel dwyster a hyd cymorth yn cael eu hystyried yn ofalus, gan gynnwys asesiad i nodi pryd y caiff dwyster cymorth ei leihau.

Gellir defnyddio tri maes cymorth cyffredinol i lywio asesiadau a chanolbwyntio cyngor a chymorth ar gyfer pobl er mwyn eu helpu i symud ymlaen a chynnal eu llety yn y tymor hwy:

- **Ymarferol** – sy'n cynnwys cymorth i sefydlu cyfleustodau, cael dodrefn a pheccynnau nwyddau gwyn, gwneud ceisiadau am fudd-daliadau a chyllidebu yn ogystal â chymorth cyffredinol i gynnal tenantiaethau, ac ati.
- **Penodol/arbenigwyr** – sy'n cynnwys diwallu anghenion o ran iechyd corfforol (h.y. cofrestru â meddyg teulu), anghenion o ran iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, anghenion o ran cyffuriau ac alcohol yn ogystal â helpu rhywun i ymdopi â phroblemau unigedd ac os oes ganddo anawsterau dysgu neu anawsterau iaith.
- **Symud ymlaen** – sy'n cynnwys helpu pobl i ddatblygu dysgu a sgiliau ychwanegol, cael gwaith o bosibl neu wirfoddoli.

Dylai'r asesiad ganolbwyntio ar anghenion cymorth ymarferol a phenodol/arbenigol am fod a wnelo hyn â galluogi pobl i gael a rheoli llety. Dylid mynd ati i ddiwallu anghenion o ran cymorth symud ymlaen unwaith y bydd llety wedi'i sicrhau ac y bydd pobl wedi ymsefydlu. Gellir ei gael gan wasanaethau prif ffrwd a gwasanaethau cymunedol.

Er mwyn llywio gweithgarwch cynllunio, bydd yr asesiad hwn yn ceisio nodi'r cymorth sydd ei angen er mwyn helpu unigolion i bontio i lety newydd, yn ogystal â nodi anghenion cymorth tymor hwy a ddylai gael eu diwallu drwy wasanaethau "prif ffrwd" a rhwydweithiau cymorth anffurfiol.

## Atodiad B

### Matrics Cymorth – Tabled Aseiad

Dwyster	Hyd		
	Hirdymor (12m+)	Tymor canolig (3 – 12m)	Byrdymor (<3m)
Uchel iawn 24/7	Tai â chymorth	Tai â chymorth	Tai â chymorth
Uchel 3+ yr wythnos	Tai yn Gyntaf	Ymyriadau Cyfnod Allweddol	Ymyriadau Cyfnod Allweddol (+Ailgartrefu cyflym)
Canolig 1 – 2 yr wythnos	Tai yn Gyntaf	Ymyriadau Cyfnod Allweddol	Ailgartrefu Cyflym
Isel < 1 yr wythnos	Ailgartrefu Cyflym (+cymorth fel y bo'r angen)	Ailgartrefu Cyflym (+cymorth fel y bo'r angen)	Ailgartrefu Cyflym

Caiff allgymorth grymusol ei anelu at gefnogi pawb sy'n cysgu allan a dylai bontio i'r cymorth a nodwyd uchod.

## Atodiad C: Modelau cymorth sy'n seiliedig ar dai

- Tai yn Gyntaf – y dull gweithredu diofyn ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth a/neu sydd wedi cysgu allan ar fwy nag un achlysur.
- Ymyriadau Cyfnod Allweddol (CTI) – dull gweithredu â therfyn amser, sy'n darparu lefel ddwys o gymorth am amser byr, sy'n lleihau'n sylweddol dros amser.
- Ailgartrefu cyflym (â chymorth fel y bo'r angen) – dull gweithredu llawer llai dwys y bwriedir iddo helpu rhai â lefel isel o anghenion i gael llety.
- Allgymorth Grymusol – cymorth parhaus a gynigir ar y stryd i unigolion sy'n cysgu allan sydd wedi ymddieithrio, sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i gael llety.

Mae'r canlynol yn rhoi mwy o fanylion am y gwahanol ddulliau gweithredu, ond dylai awdurdodau hefyd ddefnyddio'r un egwyddorion canlynol ar gyfer pob un o'r pedwar dull gweithredu:

### Llety

- Mae llety yn seiliedig ar ddewis ac anghenion unigol – mae hyn yn cynnwys ymarfer i ddeall anghenion yr unigolyn a'u 'paru' ag eiddo a lleoliadau sy'n ei alluogi i barhau â phethau fel cydberthnasau cadarnhaol â'r teulu a ffrindiau yn ogystal â defnyddio gwasanaethau a chael gofal iechyd. Fodd bynnag, yn y bôn, mae'n rhaid i fater fforddiadwyedd fod yn ganolog ac anelu at ddarparu llety hirdymor sefydlog cyn gynted â phosibl.
- Darperir llety yn ddiamod – oni fydd yr unigolyn yn cytuno fel arall ymlaen llaw, ni osodir unrhyw amodau ar lety megis gofynion i ymgysylltu â gwasanaethau eraill.
- Lle y bo'n bosibl, mae llety yn barhaol ac yn sefydlog – os na fydd hyn yn bosibl, yna dylid cwtogi hyd yr eithaf ar symudiadau, yn enwedig ar ffurf llety dros dro. Diben hyn yw sicrhau bod achosion o symud o lety i lety yn tarfu cyn lleied â phosibl ar yr unigolyn. Deallwn y bydd heriau yn gysylltiedig â dod o hyd i lety sefydlog parhaol i bawb, ond anogir awdurdodau i ddeall cadernid personol unigolion wrth ystyried symudiadau.

### Gwasanaethau a chymorth

- Mae gwasanaethau wedi'u teilwra i'r unigolyn – er ein bod yn gofyn i lety gael ei ddarparu'n ddiamod, mae'n rhaid i wasanaethau fod yn ymwybodol o'r angen posibl i sicrhau bod gwasanaethau allweddol, yn enwedig gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, yn cael eu cadw yn ystod y cyfnod symud ymlaen sy'n debygol o achosi cryn dipyn o straen a gofid i'r unigolyn.
- Cymorth i bawb – mae lefel y cymorth yn seiliedig ar lefel yr angen, ond ni ddarperir unrhyw lety heb i ryw lefel o gymorth gael ei gynnig/darparu yn ystod y cyfnod symud ymlaen ac am gyfnod ar ôl i'r unigolyn gael ei leoli. Bydd pa mor hir y darperir cymorth ôl-adsefydlu yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn. Dylai awdurdodau ystyried sut y gall prosiectau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai helpu i gyflawni'r nod hwn.
- Cysylltiadau unigol – lle y bo'n bosibl, darperir cymorth yn gyson. Gallai hyn olygu bod cymorth yn cael ei arwain gan yr un gweithiwr cymorth, ond yn bendant gan gyn lleied o weithwyr cymorth â phosibl er mwyn i gydberthnasau cadarnhaol allu datblygu. Yn yr un modd, os bydd yn anodd meithrin cydberthnasau da,

efallai y bydd gwasanaethau yn ystyried ailddyrannu adnoddau er mwyn datblygu cydberthynas fwy cadarnhaol â'r unigolyn.

Cyllidebau personoledig a chronfeydd dewisol – dyrannu symiau bach o arian i dimau allgymorth a chymorth sy'n helpu i dalu costau eitemau bach, sy'n helpu i ailgartrefu unigolion.

- Mae Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol yn ystyried cyfansoddiad seicolegol eu cyfranogwyr yn y ffordd y maent yn gweithredu – y meddyliau, yr emosiynau, y personoliaethau a'r profiad blaenorol o drawma. Bwriedir iddynt helpu staff a gwasanaethau i ddeall y rhesymau dros yr ymddygiadau heriol hyn (fel y'u gelwir) er mwyn iddynt allu gweithio'n fwy creadigol ac adeiladol gyda phobl. Fel rhan o'r dull hwn o weithredu, dylai gwasanaethau fod yn gweithio o fewn fframwaith therapiwtig eang, sy'n eu galluogi i ddatblygu ymatebion clir a digon cyson i gleientiaid a all fod yn anhrefnus ac yn teimlo'n ofidus ac sydd wedi dysgu peidio ag ymddiried yn neb. Mae i Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol bum elfen allweddol:-
  - **Fframwaith seicolegol:** mae gan sefydliadau ymrwymiad strategol a gweithredol i ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol. Mae'r gwaith o gynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau yn cael ei lywio gan fodel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ystyriol o drawma ac mae diwylliant y sefydliad yn fyfyrion, yn dosturiol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
  - **Cydberthnasau:** Cydnabyddir cydberthnasau o ansawdd uchel fel y prif ddull o ddarparu gwasanaethau yn effeithiol ac mae gan staff amser i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Defnyddir dulliau gweithredu sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol waeth pa brofiadau o drawma sy'n hysbys a chaiff disgwyliadau eu cyfleu mewn ffordd glir, gyson a llawn parch sy'n osgoi aildrawmateiddio pobl.
  - **Amgylchedd ffisegol a chymdeithasol:** Mae amgylcheddau asesu a chymorth yn ddiogel, yn groesawgar ac yn hyblyg, sy'n galluogi rhyngweithio cadarnhaol sy'n ystyriol o drawma rhwng staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Gall pobl ddewis a rheoli sut maent yn ymgysylltu â gwasanaethau ac mae'r amgylchedd ffisegol yn cefnogi eu llesiant.
  - **Hyfforddiant a chymorth i staff:** Mae staff yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn gwella eu dealltwriaeth o drawma a sut y gall effeithio ar gydberthynas pobl â gwasanaethau a'r ffordd y maent yn ymgysylltu â nhw. Mae ymarfer myfyriol, dysgu parhaus, goruchwyliaeth broffesiynol a chymorth therapiwtig yn sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus i weithio mewn ffordd sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol.
  - **Tystiolaeth a dysgu:** Caiff tystiolaeth ei chasglu er mwyn dangos effaith dulliau gweithredu sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ac fe'i defnyddir i gefnogi dysgu parhaus a gwella effeithiolrwydd gwasanaethau. Caiff gwybodaeth am brofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ei chasglu'n rheolaidd ac fe'i defnyddir i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau.
- Cael Cymorth Iechyd Meddwl

Dylid ystyried anghenion emosiynol ac anghenion iechyd meddwl fel elfen allweddol o gymorth pontio, gyda dull amlddisgyblaethol o gynllunio gofal a arweinir gan weithiwr allweddol yr unigolyn.



Dylai ymarferwyr ddefnyddio dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma a dylid ystyried hyfforddiant ychwanegol ar sut i helpu pobl i oddef gofid (megis technegau daearu neu egwyddorion therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT)) ar gyfer staff ym mhob sector.

Mae gwahanol fathau o gymorth llesiant a chymorth emosiynol ar gael ledled Cymru, a ddarperir gan y sector gwirfoddol yn ogystal â'r GIG. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau cymunedol, cymorth un i un a chymorth sydd ar gael dros y ffôn neu drwy decstio. Gall Llinell Gyngor a Gwrando'r Gymuned (CALL) gynnig sgysiau cyfrinachol am les meddyliol neu ofid, yn ogystal â chysylltu unigolion â gwasanaethau lleol, a darparu adnoddau hunangymorth ar-lein. Gellir cysylltu â'r gwasanaeth 24 y dydd, 7 diwrnod yr wythnos drwy ffonio 0800 132 737 (neu tecstiwch 'help' i 81066). Y wefan yw [www.callhelpline.org.uk](http://www.callhelpline.org.uk)

Mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol yn cynnig sesiynau grŵp galw heibio ar reoli gorbryder, rheoli straen a rheoli emosiynau anodd. Mae'r rhain yn aml yn sesiynau galw heibio ac nid oes angen i bobl gael eu hasesu ymlaen llaw er mwyn cymryd rhan ynddynt. Mae meddygfeydd hefyd yn cynnig gwasanaethau cwnsela drwy apwyntiad.

Mae cymorth iechyd meddwl ffurfiol ar gael i unigolyn sy'n cael eu hatgyfeirio gan feddyg teulu. Cynigir apwyntiadau argyfwng (2-4 awr), apwyntiadau brys (24-48 awr) ac apwyntiadau arferol (hyd at 28 diwrnod), yn dibynnu ar lefel yr angen. Os na all unigolyn gael cymorth ffurfiol megis mynd i apwyntiadau, dylid ei helpu i ymdrin â'r ffactorau sy'n ei atal rhag ymgysylltu, drwy waith cymorth un i un sy'n seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Yn aml mae'n rhaid rhoi sylw i egwyddorion hierarchaeth angen Maslow (h.y. bwyd, lloches a diogelwch) cyn i unigolyn allu cymryd rhan mewn cyrsiau ffurfiol o driniaeth. Ar gyfer y rhai â phroblemau trawma, mae dechrau cymryd rhan mewn therapi yn rhy gynnar, cyn iddynt allu ei ddilyn drwodd gyda sesiynau rheolaidd, yn peri risg y cânt eu hail-erlid ac y gwneir niwed pellach iddynt.

Dylai Cynlluniau Gofal a Thriniaeth hefyd fod ar waith ar gyfer pobl sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, a ddylai gynnwys y canlynol: Arwyddion rhybudd cynnar o argyfwng neu atglafychu (gall cofnodi meddyliau, teimladau a/neu ymddygiadau nodi pryd mae unigolyn yn mynd yn fwy sâl); camau y dylid eu cymryd os bydd unigolyn yn mynd yn fwy sâl ('cynllun argyfwng'); manylion a chysylltiadau cymorth lleol sydd ar gael er mwyn helpu i atal amgylchiadau unigolyn rhag gwaethygu nes eu bod yn argyfwng. i bwy y mae'r unigolyn yn ymateb orau (ac â phwy y mae'r unigolyn am gysylltu pan fydd yn mynd yn sâl); ac unrhyw ffactorau pwysig o ran sicrhau y gall unigolyn barhau i fod mor annibynnol â phosibl. O ran y Cynllun Argyfwng – dylai hyn gynnwys llunio Cynlluniau Wrth Gefn a manylion priodol am gymorth wedi'i gynllunio i liniaru argyfwng – gan gynnwys mynediad hawdd a chyflym at wasanaeth atal argyfwng (gallai hwn fod yn wasanaeth statudol megis Tîm Argyfwng neu'n wasanaeth cymunedol).

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-ar-gyfer-concordat-gofal-mewn-argyfwng-cymru.pdf>

- [Cael Cymorth Camddefnyddio Sylweddau](#)

Ledled Cymru, y saith Bwrdd Cynllunio Ardal sy'n gyfrifol, o fewn eu rhanbarthau, am asesu angen a chomisiynu a monitro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan ddefnyddio cyllid a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru. Byrddau Cynllunio Ardal fu'r cyfrwng allweddol ar gyfer helpu i ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a byddant yn parhau felly.

Mae pob Bwrdd Cynllunio Ardal yn comisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar asesiadau o anghenion yn eu hardaloedd gyda phwyslais cryf ar waith partneriaeth i ddarparu dull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu ag unigolion sy'n agored i niwed a pharhau i ymgysylltu â nhw.

Ers yr achosion cyntaf o feirws COVID-19 a'r cyfnod dilynol o gyfyngiadau symud, mae comisiynwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, darparwyr gwasanaethau ac amrywiaeth eang o bartneriaid cyflawni wedi addasu'n gyflym, yn briodol a, lle roedd yn bosibl, yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion cymhleth defnyddwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau er mwyn cyfyngu hyd yr eithaf ar unrhyw niwed pellach a allai gael ei achosi i'r garfan hon sy'n agored i niwed. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud, mae ymyriadau newydd megis Buvidal wedi cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r broblem sy'n gysylltiedig â defnyddio Fferyllfeydd a'u priod wasanaethau.

Mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar leihau niwed yn dal i fod yn allweddol i leihau'r risgiau cymharol sy'n gysylltiedig â defnyddio/camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio amrywiaeth o fesurau megis cwtogi ar yr arfer o rannu cyfarpar chwistrellu, darparu cymorth er mwyn helpu pobl i roi'r gorau i chwistrellu, ymyriadau i leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a darparu amrywiaeth o driniaethau ffarmacolegol a seicogymdeithasol ar gyfer cyffuriau ac alcohol. Mae gwella ac ymwrthod hefyd yn rhan o'r daith lleihau niwed; nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd.

Mae'n debygol na fydd unrhyw wasanaeth unigol yn gallu darparu'r holl gymorth sydd ei angen ar unigolyn. Gall gwasanaethau arbenigol a dulliau athronyddol penodol gynnal eu hunigoliaeth wrth ymgorffori egwyddorion arferion sy'n canolbwyntio ar leihau niwed a gwella yn y ffyrdd y maent yn darparu eu gwasanaethau.

Fel egwyddor gyffredinol, mae angen rhoi ystyriaeth sylweddol i gydweithio a chydgyssylltu yn benodol â gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau tai a phob partner cyflawni strategol arall yn y system cyfiawnder troseddol. Datblygodd trefniadau pwysig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn ystod y cyfnod ymateb i COVID-19 a, lle y bo'n bosibl, dylem adeiladu arnynt.

Anogir Byrddau Cynllunio Ardal a phartneriaid cyflawni i ystyried opsiynau amgen eraill ar gyfer triniaethau er mwyn lleihau'r pwysau ar y systemau presennol, gan ddarparu, o bosibl, ar gyfer ffyrdd craffach o weithio. Mae angen helpu unigolion sydd wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro yn ystod argyfwng COVID-19 ac sydd wedi manteisio ar opsiynau ar gyfer triniaethau camddefnyddio sylweddau, i barhau i gymryd rhan yn yr amrywiaeth o opsiynau triniaeth sydd ar gael drwy'r 4 Haen o ymyriadau camddefnyddio sylweddau.

Ceir rhagor o ganllawiau ar rôl Byrddau Cynllunio Ardal gan gynnwys comisiynu gwasanaethau yn eu hardaloedd yn <https://llyw.cymru/camddefnyddio-sylweddau-canllawiau-diwygiedig-i-fyrddau-cynllunio-ardal-2017>

Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru –  
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2019-2022.pdf>